Llywodraeth EM

# Y CYNLLUN PRESWYLIO'N SEFYDLOG I DDINASYDDION YR UE

## CYFLWYNIAD I GRWPIAU CYMUNEDOL



Am ragor o wybodaeth ar Gynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE, yn cynnwys y gefnogaeth sydd ar gael, ewch i

**gov.uk/eu-settled-status**

Y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE– Ebrill 2019

# LLYTHYR I
# ARWEINYDDION CYMUNEDOL



**Rydym wir yn gwerthfawrogi'r rôl mae sefydliadau gwirfoddol a chymunedol yn chwarae o ran cefnogi rhai o'r bobl mwyaf bregus a dan risg yn ein cymdeithas.**

Trwy gydol datblygiad y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE, rydym wedi bod yn glir ar bob adeg ein bod yn gwerthfawrogi cyfraniad dinasyddion yr UE yn fawr iawn i wneuthuriad cymdeithasol, economaidd a diwylliannol y Deyrnas Unedig a'n bod eisiau iddynt aros yn y Deyrnas Unedig.

Rydym wedi ymdrechu i ddileu unrhyw amheuaeth ar gyfer dinasyddion yr UE sy'n preswylio yn y Deyrnas Unedig. Mae eu hawliau wedi eu diogelu gan y Cytundeb Ymadael ac rydym wedi ei gwneud mor syml a hawdd â phosibl iddynt gael statws mewnfudo yn y Deyrnas Unedig: yr oll fydd angen gwneud yw profi eu hunaniaeth, cadarnhau eu bod yn preswylio yn y Deyrnas Unedig a datgan unrhyw gollfarnau troseddol.

Bydd y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE yn galluogi dinasyddion yr UE sy'n byw yn y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd i aros a pharhau i fyw eu bywydau yma heb fawr o newid, gyda mynediad parhaus i weithio, astudio, budd-daliadau a gwasanaethau cyhoeddus fel sydd ganddynt nawr.

Mae'r Swyddfa Gartref yn sicrhau bod y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE yn hygyrch ac yn gallu delio ag ymgeiswyr bregus gyda hyblygrwydd a sensitifrwydd.

Er mwyn sicrhau bod dinasyddion yr UE bregus a dan risg ac aelodau eu teuluoedd yn deall bod angen iddynt ymgeisio, rhan bwysig o'n hallgymorth fu i weithio gydag amrywiaeth o sefydliadau cymdeithas sifil. Mae gennych chi arbenigedd a chysylltiadau lleol cryf all helpu codi ymwybyddiaeth ynghylch y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE gyda chymunedau perthnasol. Bydd cynnwys y gymuned leol ac allgymorth hefyd yn darparu rhwydwaith cefnogaeth yr ymddiriedir ynddi i ddinasyddion yr UE i alw arnynt i gynorthwyo gyda'r statws mewnfudo pwysig newydd hwn.

Felly mae'r pecyn cymorth cyfathrebu hwn wedi ei gynllunio i'ch helpu i gyflawni gwaith ymgysylltu a chefnogi ceisiadau cymunedol i ddinasyddion bregus neu dan risg, a fydd angen ymgeisio i'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE os ydynt eisiau aros yn y Deyrnas Unedig.



Ysgrifennydd Gwladol dros Fewnfudo,
Y Gwir Anrhydeddus Caroline Nokes AS

# CYFLWYNIAD:
# CEFNOGI DINASYDDION YR UE

## Y Cynllun Preswylio’n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE

Gall dinasyddion yr UE[1] ac aelodau eu teuluoedd (yn cynnwys plant) nawr ymgeisio i’r Cynllun Preswylio’n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE er mwyn parhau i fyw yn y Deyrnas Unedig.



Mae’r Cynllun Preswylio’n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE yn galluogi dinasyddion yr UE ac aelodau eu teulu i gael y statws mewnfudo maent angen i barhau i **fyw, gweithio ac astudio** yn y Deyrnas Unedig. Golyga’r statws hyn y byddant yn parhau i fod yn gymwys ar gyfer **gwasanaethau cyhoeddus**, fel gofal iechyd ac ysgolion, yn ogystal â chronfeydd cyhoeddus a phensiynau.




Gellir cael mynediad i’r ffurflen **gais ar-lein** yn defnyddio cyfrifiadur, llechen neu ffôn symudol. Mae tair rhan allweddol i'r cais: **hunaniaeth**, **preswylio** yn y Deyrnas Unedig, a **throseddoldeb**.

## Helpwch ni i helpu dinasyddion yr UE

- Bydd yna ddinasyddion yr UE fydd **angen cefnogaeth ychwanegol** i’w gwneud yn ymwybodol o’r Cynllun Preswylio’n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE ac i **wneud cais**.
- Mae’r pecyn hwn wedi ei gynllunio i’ch darparu gyda gwybodaeth ddefnyddiol am y Cynllun Preswylio’n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE, ac i gynyddu eich dealltwriaeth o’r **rôl bwysig y gallwch chwarae** i gefnogi dinasyddion bregus a dan risg yr UE.
- Gallwch **helpu dinasyddion bregus neu dan risg yr UE o fewn eich cymunedau**; o godi ymwybyddiaeth a darparu gwybodaeth, i’w cefnogi gyda’u cais.
- Ceir rhagor o fanylion ar y **deunyddiau atodol** sydd ar gael i chi yn y pecyn hwn.
- **Ni ddylech ddehongli gwybodaeth** a ddarperir gan y Llywodraeth a rhaid i chi fod yn ofalus i beidio cynnig cyngor ar fewnfudo oni bai eich bod wedi cofrestru gyda Swyddfa Comisiynydd y Gwasanaeth Mewnfudo (OISC). Mae’r pecyn hwn yn cynnig rhagor o wybodaeth ar weithgareddau wedi eu rheoleiddio’r OISC.

Ceir arweiniad ar y Cynllun Preswylio’n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE ar **gov.uk/eu-settled-status**.

1 Defnyddir dinasyddion yr UE drwyddo draw i gyfeirio at **wladolion yr AEE a’r Swistir**, sydd oll yn gymwys i ymgeisio i Gynllun Preswylio’n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE.

# DEUNYDDIAU I CHI EU DEFNYDDIO

Rydym wedi darparu awgrymiadau ar gyfer sut allwch chi ddefnyddio'r deunyddiau cyfathrebu yn y pecyn cymorth hwn. Gellir lawrlwytho'r deunyddiau hyn o **GOV.UK**.

| Eitem pecyn cymorth | Diben | Defnydd a argymhellir |
|---|---|---|
| Grwpiau cymunedol: pecyn cyflwyno (y ddogfen hon) | Mae'n eich helpu i ddefnyddio deunyddiau'r pecyn cymorth, yn amlinellu eich rôl a'r gefnogaeth sydd ar gael. | Er gwybodaeth i sefydliadau cymunedol yn unig. |
| Gwybodaeth briffio | Yn darparu gwybodaeth allweddol am y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE yn cynnwys y gefnogaeth sydd ar gael. | Defnyddiwch mewn cyfarfodydd a sesiynau galw i mewn gyda dinasyddion yr UE ynghylch y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE. |
| Taflen | Yn darparu gwybodaeth allweddol ar beth sydd angen i ddinasyddion yr UE wneud a'r gefnogaeth sydd ar gael. | Dosbarthwch mewn digwyddiadau cymunedol a chanolfannau galw heibio. |
| Poster | Mae'n codi ymwybyddiaeth am ddyddiadau a gweithredoedd pwysig. | Arddangoswch mewn ardaloedd cyffredinol a chyhoeddus yn eich sefydliad a rhannu gyda'ch cymunedau. |
| Taflenni ffeithiau:<br>• Trosolwg y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE[2]<br>• Y cais<br>• Gwiriad hunaniaeth<br>• Cefnogaeth ar gael | Yn darparu gwybodaeth allweddol ac yn amlinellu'r llwybrau ymgeisio a chefnogaeth ar gyfer ymgeisio i'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE. | Arddangoswch mewn ardaloedd cyffredinol a chyhoeddus yn eich sefydliad, rhannwch o fewn eich cymunedau a dosbarthu mewn digwyddiadau cymunedol a chanolfannau galw i mewn lleol. |
| Asedau digidol a chyfryngau cymdeithasol (e.e. animeiddio a graffeg) | Yn codi ymwybyddiaeth o'r cynllun mewn fformat gweledol a deniadol ac yn darparu gwybodaeth allweddol yn cynnwys sut i wneud cais a fideos o straeon dinasyddion yr UE. | Uwchlwythwch i byrth mewnol, rhannwch trwy e-bost ac ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol (e.e. Facebook, Twitter a LinkedIn). |

2 Mae'r ddalen ffeithiau hon wedi ei chyfieithu i bob un o 23 o ieithoedd yr UE, yn ogystal â Norwyeg ac Islandeg.

# DARPARU CEFNOGAETH I DDINASYDDION YR UE

## Darparu gwasanaeth Digidol a Gynorthwyir

Mae cefnogaeth ar gael ar draws y Deyrnas Unedig i'r rhai sydd angen cymorth digidol i gwblhau eu ffurflen gais.

Mae We Are Digital, ein darparwr digidol, yn cynnig gwasanaeth Digidol a Gynorthwyir i'r rhai sydd heb y sgiliau, mynediad neu hyder priodol i gwblhau'r ffurflen gais ar-lein.

Cynigir cefnogaeth yn y ffyrdd canlynol:

Dros y ffôn

Cefnogaeth wyneb yn wyneb mewn canolfan leol

Tiwtoriaid yn y cartref

Mae nifer o sefydliadau cymunedol ar draws y Deyrnas Unedig wedi cofrestru i fod yn **bartner cyflawni** i'r gwasanaeth hwn i ddarparu cefnogaeth wyneb yn wyneb mewn lleoliad lleol.

I weld os yw cefnogaeth i gyflawni'r gwasanaeth hwn yn ofynnol yn eich ardal, cysylltwch â We Are Digital at **HomeOffice@We-Are-Digital.co.uk**. Am ragor o wybodaeth ar Digidol a Gynorthwyir ewch i **GOV.UK**.

## Sefydliadau gyda chyllid grant

- Mae'r Swyddfa Gartref yn darparu hyd at £9 miliwn o gyllid a chefnogaeth i sefydliadau'r sector gwirfoddol a chymunedol (VCS) sydd wedi ymgeisio'n llwyddiannus i'r Cyllid Grant y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE. Cefnogir y sefydliadau VCS llwyddiannus **i ddarparu cymorth ymarferol** i ddinasyddion yr UE sy'n fregus neu dan risg ac aelodau eu teuluoedd wrth ymgeisio i'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE.
- Rydym yn argymell eich bod yn cysylltu gyda **sefydliadau gyda chyllid grant** yn eich ardal i archwilio sut allwch chi gydweithio i gefnogi dinasyddion yr UE. Bydd y sefydliadau hyn yn adnodd arbennig yn eich ardal ar gyfer atgyfeirio, yn arbennig wrth gynnig cyngor a chymorth gyda cheisiadau i ddinasyddion bregus yr UE.

Bydd **rhestr lawn o sefydliadau a ddyfarnwyd** ar gael ar **GOV.UK**. Efallai yr hoffech chi hefyd rannu manylion y sefydliadau gyda chyllid grant gyda dinasyddion yr UE a allai ddefnyddio eu gwasanaethau.

# RHEOLEIDDIAD SWYDDFA COMISIYNYDD Y GWASANAETHAU MEWNFUDO

Rhaid i bob sefydliad sy'n darparu cyngor ar fewnfudo gael y lefel rheoleiddio priodol gan Swyddfa Comisiynydd y Gwasanaethau Mewnfudo (OISC) yn unol â'r gwasanaethau maent yn darparu.

## Beth a ystyrir i fod yn gyngor ar fewnfudo?

Does dim rhaid i sefydliadau o reidrwydd fod wedi eu rheoleiddio gan yr OISC er mwyn cymryd rhan mewn darparu help a chymorth i ddinasyddion yr UE ynghylch y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE. Gall sefydliadau **helpu darparu amrywiaeth o weithgareddau** heb achrediad OISC. Bydd hyn yn cynnwys:

- Codi ymwybyddiaeth
- Darparu gwybodaeth gyffredinol h.y. taflenni, posteri, sgyrsiau ac ati.
- Cyfeirio
- Cefnogaeth ieithyddol
- Uwchsgilio sefydliadau lleol
- Darparu offer/digidol

Os ydych chi'n llenwi ffurflen ar gyfer ymgeisydd am nad yw'n gallu deall y cyfarwyddiadau neu gwestiynau mae'r ffurflen yn holi, dydy hyn ddim yn cyfateb i gyngor ar fewnfudo. Does dim angen i sefydliad fod wedi cofrestru gyda'r OISC os ydynt yn helpu rhywun i leoli gwaith papur.

Dim ond os ydych chi'n darparu cyngor un i un, er enghraifft yn helpu ymgeisydd i ddeall y gwaith papur, cynghori ar pa waith papur i'w gynnwys, archwilio eu hamgylchiadau unigol neu esbonio'r canlyniadau fyddwch chi angen rheoleiddio.

## Cofrestriad OISC

- Mae'r OISC wedi cyhoeddi manylion proses ymgeisio syml a llwybr cyflym ar gyfer sefydliadau dielw ac elusennol sy'n bwriadu cynnig cyngor a gwasanaethau mewnfudo yn ymwneud â'r **Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE yn unig**.

- Gellir cwblhau ffurflenni cais ar gyfer awdurdodiad ar Lefel 1 OISC Mewnfudo (cyfyngedig i'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE) ar **wefan yr OISC**.

Am ragor o wybodaeth, ewch i **GOV.UK**.

### Lefel 1 OISC Mewnfudo (cyfyngedig i'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE)

- Bydd disgwyl i sefydliadau sydd eisiau darparu gwasanaethau yn galw am achrediad Lefel 1 Mewnfudo (cyfyngedig i'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE), yn cynnwys sefydliadau gyda chyllid grant, ymgeisio ar gyfer y broses ymgeisio llwybr cyflym a chymryd rhan yn y cwrs hyfforddi, unwaith y bydd ar gael. Bydd hyn yn eu galluogi i gyflawni'r achrediad gofynnol os na allant ddarparu tystiolaeth o'r gofynion cymhwyster yn barod.

### Y broses

- Bydd ceisiadau yn cymryd oddeutu pedair i chwe wythnos i brosesu a bydd sefydliadau llwyddiannus yn cael achrediad Mewnfudo Lefel 1 ar gyfer y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE yn unig. Mae angen i sefydliadau ddangos eu bod wedi bodloni'r gofynion cymhwyster gofynnol a darparu tystiolaeth eu bod yn addas i gynnig cyngor.

# GWYBODAETH AR ACHOSION PENODOL

## Cynorthwyo oedolion gydag anghenion gofal ac arbennig

- Mae oedolion gydag anghenion gofal ac arbennig yn cynnwys oedolion mewn amrywiol leoliadau gofal gydag amrywiaeth o fregusrwydd.
- I gefnogi oedolion gydag anghenion gofal ac arbennig, mae'r Swyddfa Gartref yn **ymgysylltu'n uniongyrchol gydag amrywiaeth o randdeiliaid**, yn cynnwys y Gymdeithas Llywodraeth Leol, Cymdeithas Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion, Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn ogystal â chynrychiolwyr o sefydliadau sector gwirfoddol a chymunedol.
- Rydym yn argymell eich bod yn **ymgysylltu gyda'ch arweinwyr gwasanaeth perthnasol**, aelodau cabinet, elusennau lleol a grwpiau neu gynrychiolwyr cymunedol i archwilio cyfleoedd i gydweithio i gynorthwyo oedolion gydag anghenion gofal a chefnogaeth i ymgeisio i'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE.

Gallwch hefyd gyfeirio at yr wybodaeth mae'r Llywodraeth yn darparu ar **gov.uk/eu-settled-status**.

## Cynorthwyo'r rhai heb ddogfennau adnabod

- Rydym yn ymwybodol na all rhai dinasyddion yr UE, neu aelodau eu teulu, ddarparu tystiolaeth o'u hunaniaeth a chenedligrwydd ar ffurf pasbort, cerdyn adnabod cenedlaethol neu gerdyn preswylio biometrig.
- Yn yr achos cyntaf gallwch weithio gyda'r unigolion hynny a'u llysgenadaethau i ymgeisio am **ddogfen adnabod ddilys**.
- Efallai y bydd y Swyddfa Gartref yn derbyn **tystiolaeth amgen o hunaniaeth a chenedligrwydd** os na all dinasyddion yr UE ddarparu'r dogfennau gofynnol oherwydd **amgylchiadau tu hwnt i'w rheolaeth**, neu oherwydd rhesymau ymarferol neu drugarog cymhellol.

# GWYBODAETH
# AR GYFER GRWPIAU CYMUNEDOL

Mae'r Swyddfa Gartref wedi sefydlu nifer o ffrydiau i chi gael mynediad at wybodaeth ynghylch y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE:

**Cofrestrwch** i dderbyn **Bwletin Cymunedol** rheolaidd gan y Swyddfa Gartref a chael diweddariadau ar gyfleoedd ymgysylltu yn y dyfodol e.e. digwyddiadau hyfforddi a thelegynadleddau.

Gweld y pecyn cymorth arweinwyr cymunedol ar **GOV.UK** i lawrlwytho deunyddiau cyfathrebu i'w rhannu gyda dinasyddion yr UE.

Cael mynediad at ddeunydd cyfathrebu a chanllawiau wedi **cyfieithu** ar **GOV.UK**. Gellir hefyd gofyn am fformatau amgen.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau ar gefnogi dinasyddion yr UE i ymgeisio ar gyfer y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE gallwch gysylltu â rhif penodol y **Ganolfan Gymorth Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE** trwy ffonio **0300 790 0566**. Dysgwch am daliadau ar gyfer galwadau ar **gov.uk/call-charges.**

Ceir arweiniad ar y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE ar **gov.uk/eu-settled-status**.

# GWYBODAETH
# AR GYFER DINASYDDION YR UE

I gefnogi dinasyddion yr UE yn eich cymuned, gallwch gyfeirio at y gwasanaethau cefnogaeth isod:

### Canolfan Gymorth Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE

- Ar gyfer cwestiynau unigol am eu cais, gall dinasyddion yr UE ffonio **0300 123 7379** neu +44 (0) 20 3080 0010 o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig (Llun–Gwener, 8am–8pm a Sadwrn–Sul, 9.30am–4.30pm). Dysgwch am daliadau ar gyfer galwadau ar **gov.uk/call-charges.**
- **Gallant hefyd ofyn cwestiwn yn defnyddio'r ffurflen gyflwyno ar-lein eu-settled-status-enquiries.service.gov.uk**.

Am ragor o wybodaeth, ewch i **GOV.UK**.

### Digidol a Gynorthwyir

- Mae'r gwasanaeth am ddim hwn ar gael dros y ffôn ac yn bersonol os nad oes ganddynt y mynediad, sgiliau neu hyder priodol i gwblhau'r ffurflen gais ar-lein. Cysylltwch â Digidol a Gynorthwyir trwy ffonio **03333 445 675** (Llun–Gwener, 9am–5pm).

Am ragor o wybodaeth, ewch i **gov.uk/eu-assisted-digital**.

### Gwasanaeth sganio dogfennau hunaniaeth

- Mae'r gwasanaeth ar gael i gwblhau'r cam gwirio hunaniaeth os nad oes ganddynt fynediad i'r ap EU Exit: ID Document Check. Efallai y bydd ffi weinyddol i ddefnyddio'r gwasanaeth hwn.

I weld rhestr o leoliadau, ewch i **gov.uk/eu-id-scanner-locations**.

### Sefydliadau cymunedol

- Bydd rhestr o sefydliadau cymunedol gyda chyllid grant yn darparu cefnogaeth y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE ar gael ar **GOV.UK**.

Am ragor o wybodaeth ar Gynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE, yn cynnwys y gefnogaeth sydd ar gael, ewch i **gov.uk/eu-settled-status**.

Am ragor o wybodaeth ar y gefnogaeth sydd ar gael, ewch i
**gov.uk/eu-settled-status**